# Gwybodaeth am gyflogi perthnasau Aelodau'r Cynulliad

*07/02/2011*

Annwyl

**Cais am wybodaeth.**

Mewn ymateb i'ch cais a drosglwyddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 24 Ionawr, pan wnaethoch ofyn,

*Pa rai o Aelodau'r Cynulliad (cyffredin neu weithredol) sydd â theulu neu berthnasau sy'n gweithio yn y Cynulliad ac ym mha adrannau y maent yn gweithio ynddynt?*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyhoeddi cofnod sy'n rhoi gwybodaeth am yr Aelodau Cynulliad hynny (sy'n cynnwys Gweinidogion) sydd ar unrhyw bryd, â chefnogaeth arian Comisiwn y Cynulliad, yn cyflogi, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, berson y gŵyr yr Aelod sy'n aelod o deulu'r Aelod hwnnw neu unrhyw Aelod arall. Mae modd gweld y cofnod ar wefan y Cynulliad drwy gysylltu â'r linc a ganlyn http://www.cynulliadcymru.org/memhome/employment_of_family_members.htm

Nid yw'r Cynulliad yn cadw rhagor o wybodaeth am gyflogaeth perthnasau Aelodau'r Cynulliad, na gwybodaeth am unrhyw staff a gyflogir gan Lywodraeth Cymru

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 821813
E-bost/Email:Alison.Rutherford@wales.gov.uk

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

pub.htm. Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn.

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Yn gywir

Alison Rutherford
Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru